| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **21 MAI 2026** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2025/2026** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CASGLIAD Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

## 1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

1.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae Archwilio Mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, amddiffyn, gwarchod a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol, annibynnol yn seiliedig ar risg, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.***

## 2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL BYD-EANG A'R NODYN GWEITHREDU: SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL BYD-EANG YN SECTOR GYHOEDDUS Y DU

2.1 Mae Nodyn Gweithredu, adran 10B, Casgliadau cyffredinol ac adrodd blynyddol yn nodi ***"Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS[1]) 11.3 (Cyfathrebu Canlyniadau) yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai fod yn ofynnol i'r prif weithredwr archwilio ddod i gasgliad ar lefel y sefydliad ynghylch effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a neu/reolaeth. Yn y sector gyhoedd yn y DU, rhaid i brif weithredwr archwilio baratoi casgliad cyffredinol o'r fath o leiaf yn flynyddol i gefnogi adroddiadau llywodraethu ehangach, gan ystyried unrhyw rwymedigaethau neu brosesu o fewn y sector benodol. Rhaid i'r casgliad cyffredinol hwn gynnwys materion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol."***

[1] Global Internal Audit Standards

2.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu casgliad archwilio mewnol blynyddol i'r Cygnor ac i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2025/2026 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

2.4 Cyflwynwyd rhaglen waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2025/2026 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 22 Mai 2025. Roedd y cynllun archwilio blynyddol yn gynllun hyblyg i sicrhau y rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor.

**3. SICRWYDD CYFFREDINOL**

3.1 Mae casgliad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn seiliedig ar dair agwedd o drefniadau'r Cyngor:

- Llywodraethu
- Rheoli Risg
- Rheolaeth Fewnol

3.2 Mae canlyniadau'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol, ynghyd â ffynonellau sicrwydd eraill, yn cefnogi'r casgliad blynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yr Awdurdod.

3.3 **Ystyriaethau**

Mae fy nghasgliad blynyddol yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o ystod archwiliadau a gynhaliwyd ar draws y Cyngor. Mae'r gwerth a ddarperir gan Archwilio Mewnol yn y gwaith manwl a wneir a'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir i reolwyr gwasanaethau ar reolaethau mewnol, prosesau a gweithdrefnau, ac yn eu hasesiad o'r camau gweithredu i liniaru risgiau cynhenid i lefel dderbyniol. Wrth lunio fy marn, rhoddwyd ystyriaeth i'r nifer o archwiliadau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod 2025/2026 ynghyd ag adlewyrchiad o fy mhrofiad o fewn fy rôl yn Archwilio Mewnol dros y blynyddoedd blaenorol a fy marn am safon a gweithrediad y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Grŵp Rheoli ac Uwch Reolwyr. Rwyf wedi defnyddio tystiolaeth a ddarparwyd gan reoleiddwyr allanol i gefnogi fy nghasgliad am y flwyddyn.

Er mwyn darparu fy nghasgliad blynyddol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor a archwiliwyd.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg. Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Medi 2025 i ddiweddaru am ddatblygiadau yn y maes rheoli risg, y camau gweithredu nesaf i gryfhau ymhellach y trefniadau rheoli risg.
- Mae'r 24 risg llywodraethu (gyda 6 risg uchel a 9 risg canolig) sydd wedi cael eu hadnabod yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (fel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Medi 2025) yn cael eu hasesu'n barhaus gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor neu fe dderbyniasant sylw gan y Gweithgor Gwella Rheolaethau neu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae'r Awdurdod wedi derbyn nifer o adroddiadau gan reoleiddwyr yn ystod 2025/2026:
    - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 – Archwilydd Cyffredinol. Mynegir yn yr adroddiad ***"Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Cyngor wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir a rhoddais farn archwilio ddiamod arnynt...Cyhoeddais y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon 2024-25 wedi'i gwblhau ar 19 Tachwedd 2025"***.
    - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 – Mynegir y ***"Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â'm gwybodaeth i am y Cyngor"***.

O ddadansoddi'r gwaith archwilio a gwblhawyd yn ystod 2025/2026, mae nifer o themâu rheolaethol cyffredinol wedi dod i'r amlwg ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Yn bennaf, mae'r rhain yn cynnwys cydymffurfiaeth anghyson â rheolaethau sefydledig, diffyg monitro a goruchwyliaeth reolaethol mewn rhai meysydd, a gwendidau mewn cofnodi a dogfennu prosesau a phenderfyniadau. Nodwyd hefyd fod rhai gwasanaethau yn wynebu heriau o ran capasiti ac adnoddau, sy'n gallu effeithio ar weithredu rheolaethau'n gyson. Mae'r themâu hyn wedi cyfrannu at y gyfran gymharol uchel o archwiliadau sydd wedi derbyn lefel sicrwydd "Cyfyngedig" yn ystod y flwyddyn, ac maent yn tynnu sylw at yr angen am ffocws corfforaethol parhaus a chydlynol ar gryfhau trefniadau rheolaeth fewnol.

3.4 **<u>Casgliad Blynyddol</u>**

**Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2025/2026, yn fy marn i, mae fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/2026 yn gweithredu ar lefel sy'n darparu sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Cyngor, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar y gwaith archwilio a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gasglwyd drwy'r adolygiadau hynny, ac mae wedi'i fwriadu i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

Fodd bynnag, wrth lunio'r farn hon, nodwyd nifer o feysydd lle mae gwendidau rheolaethol yn parhau, yn enwedig mewn perthynas â chysondeb wrth weithredu rheolaethau, goruchwyliaeth reolaethol, a safonau cofnodi a dogfennu. Adlewyrchir y materion hyn yn y gyfran gymharol uchel o archwiliadau a dderbyniodd lefel sicrwydd "Cyfyngedig" yn ystod y flwyddyn.

Er nad yw'r gwendidau hyn yn tanseilio'r casgliad cyffredinol o sicrwydd rhesymol, maent yn tynnu sylw at yr angen am ffocws corfforaethol parhaus ar gryfhau trefniadau rheolaeth fewnol ac ar sicrhau bod rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Os na roddir sylw priodol i'r materion hyn, gallent gynyddu'r risg na fydd amcanion gwasanaethau'n cael eu cyflawni'n effeithiol.

## 4. GWAITH ARCHWILIO

### Cynllun Archwilio

4.1 Roedd 49 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2025/2026. Cafodd 43 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2026, sy'n cynrychioli **88%** o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad drafft neu derfynol neu femorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.

4.2 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2025/2026 sydd wedi cyfrannu at y casgliad a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

4.3 Ble'n berthnasol, caiff lefel sicrwydd ei ddarparu ar gyfer yr adroddiadau archwiliad mewnol sydd yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg cyfatebol.  Mae'r sgôr risgiau cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

| LEFEL RISG | SGÔR |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 20 - 25 |
| UCHEL | 12 - 16 |
| CANOLIG | 6 - 10 |
| ISEL | 1 - 5 |

4.4 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod:

| LEFEL SICRWYDD | DIFFINIAD |
|---|---|
| UCHEL | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| DIGONOL | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| CYFYNGEDIG | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| DIM SICRWYDD | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

4.5 Nod pob un o'r gweithrediadau cytunedig o fewn yr adroddiadau oedd cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol ac i sefydlu ymarfer da.

4.6 O'r 43 aseiniad yng nghynllun archwilio 2025/2026 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y lefelau sicrwydd canlynol:

| Lefel Sicrwydd | Nifer Archwiliadau |
|---|---|
| Uchel | 5 |
| Digonol | 15 |
| Cyfyngedig | 19 |
| Dim Sicrwydd | 0 |
| Dim Categori | 4 |
| **Cyfanswm** | **43** |

4.7 O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2025/2026 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 51.28% (sef 20 allan o 39) ohonynt lefel sicrwydd "Digonol" neu "Uchel".

4.8 Derbyniodd 19 archwiliad (48.71%), lefel "Cyfyngedig" ac ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel "Dim Sicrwydd".

4.9 Caiff yr adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleiant a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori sicrwydd, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol ble'n briodol.

4.10 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2025/2026. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| **Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol** | **Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
|---|---|
| 1 Ebrill 2025 - 28 Medi 2025 | 9 Hydref 2025 |
| 29 Medi 2025 – 25 Ionawr 2026 | 3 Chwefror 2026 |
| 26 Ionawr 2026 - 31 Mawrth 2026 | 21 Mai 2026 |

**Addasiadau i'r Cynllun**

4.11 Adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

**Gwaith Dilyniant**

4.12 Yn 2024/25, derbyniodd 15 archwiliad lefel sicrwydd "Cyfyngedig" ac ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel "Dim Sicrwydd". Oherwydd diffyg adnoddau, penderfynwyd cynnal archwiliadau dilyniant ar adroddiadau a dderbyniodd lefel sicrwydd "Cyfyngedig" yn unig. Cyflwynwyd adroddiadau ar ganlyniadau'r gwaith dilyniant gerbron y Pwyllgor yn unol â'r cais i wneud hynny. Gweler isod:

| **Archwiliad 2024/25** | **Lefel Sicrwydd Dilyniant** | **Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor** |
|---|---|---|
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| Canu'r Gloch[2] | | |
| Cludiant Ysgolion | Digonol | 21 Mai 2026 |
| Clybiau Brecwast | Cyfyngedig | 21 Mai 2025 |
| Trafnidiaeth Ysgolion | Cyfyngedig | 21 Mai 2025 |
| Trefniadau Dosbarthu Biniau | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| Rheolaeth Categori Corfforaethol – Dilyniant | | |
| Plas Hafan | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| Llys Cadfan | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| Plas Pengwaith | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| Glanhau Stryd – Goramser | Digonol | 21 Mai 2026 |
| Rheolaeth Categori Amgylchedd | Cyfyngedig | 21 Mai 2026 |
| Grant Cymorth Tai | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| Grant Atal Digartrefedd | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| Manddaliadau - Dilyniant[3] | | |

[2] Archwiliad yn gynwysedig yng Nghynllun 2026/27 yn sgil mabwysiadu Polisi newydd.
[3] Yng Nghynllun Archwilio 2026/27 – maes problemus ers sawl blwyddyn.

**Gweithgor Gwella Rheolaethau**

4.13 Mae'r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) wedi ei sefydlu i gwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i drafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn mwy o ddyfnder. Caiff swyddogion eu gwahodd i'r Gweithgor i egluro'r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella'r sefyllfa. Ni chyfeiriwyd unrhyw archwiliad i sylw'r Gweithgor yn ystod 2025/26.

## 5. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

**Staffio a Chymwysterau**

5.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth "Pennaeth Archwilio Mewnol". Mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio, un Arweinydd Archwilio ac un Uwch Archwiliwr gymhwyster CIPFA[4] llawn ac mae gan yr Arweinydd arall gymhwyster llawn ACCA[5]. Mae un Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster CIPFA ar hyn o bryd.

5.2 Ers 1 Ebrill 2025, 5 aelod llawn amser ac un aelod rhan amser (0.8) sydd i'r Tîm Archwilio Mewnol.

**Y defnydd a wneir o adnoddau staff**

5.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd, **464** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 ac **498** diwrnod am yr un cyfnod yn 2025/2026 – cynnydd o 34 diwrnod.
- Ni ddefnyddiwyd unrhyw ddyddiau ar gyfer cynnal archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 2024/2025, o gymharu â 35 o ddiwrnodau yn 2024/2025.

[4] Chartered Institute of Public Finance and Accountancy
[5] Association of Certified Chartered Accountants

**6. PERFFORMIAD ARCHWILIO**

6.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2025/2026 fel a ganlyn:

| Disgrifiad Mesurydd | Perfformiad 2024/25 | Uchelgais 2025/26 | Canlyniadau 2025/26 |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau. | **91%** | 95% | **88%** |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol). | **48.27%** | 80% | **51.28%** |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). | **-**[6] | 100% | **53.57%** |

6.2 Er bod perfformiad yn parhau'n rhesymol gadarn mewn rhai meysydd, ni chyflawnwyd yr uchelgais o 95% ar gyfer cwblhau'r cynllun archwilio. Yn ogystal, er bod gwelliant bach yn y gyfran o archwiliadau yn derbyn sicrwydd "Digonol" neu well, mae'r canlyniad yn parhau'n sylweddol is na'r targed corfforaethol o 80%, gan adlewyrchu'r materion rheolaethol a nodwyd uchod.

**7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2025/2026**

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol 2025/2026 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 22 Mai 2025.

7.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Mesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/2027 yw:

| Mesur | Uchelgais 2026/2027 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau. | 95% |  |

[6] Oherwydd diffyg adnoddau, penderfynwyd i gynnal archwiliadau dilyniant ar adroddiadau a dderbyniodd lefel sicrwydd "Cyfyngedig" yn unig.

| Mesur | Uchelgais 2026/2027 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol). | 80% | ⬆ |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). | 100% | ⬆ |
| Oriau cynhyrchiol fel canran sydd ar gael. | 75% | Mesur Newydd |
| Cwmpas risgiau strategol/corfforaethol yn y Cynllun Blynyddol Terfynol. | 70% | Mesur Newydd |

## 8. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT ARCHWILIO MEWNOL

8.1 Yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, Safon 12.1, mae Asesiad Ansawdd Mewnol yn nodi bod "*rhaid i'r prif weithredwr archwilio ddatblygu a chynnal asesiadau mewnol o gydymffurfiaeth y swyddogaeth archwilio mewnol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a symud ymlaen tuag at amcanion perfformiad".*

8.2 Bydd canlyniad cydymffurfiaeth hunanasesu â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio maes o law yn dilyn derbyn arweiniad pellach a Phecyn Cymorth Asesu Cydymffurfiaeth gan CIPFA ddiwedd mis Ionawr 2026.

8.3 Mae Safon 8.4, Asesiad Ansawdd Allanol, yn nodi "*rhaid i'r prif weithredwr archwilio ddatblygu cynllun ar gyfer asesiad ansawdd allanol... Rhaid i'r asesiad allanol gael ei gynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan aseswr neu dîm asesu cymwysedig, annibynnol*".

8.4 Bydd yr asesiad allanol yn cael ei gynnal yn 2026/27 gan Gyngor Sir Ddinbych ar sail adolygiad gan gymheiriaid a drefnir gan Grŵp Prif Archwilwyr Cymru. Unwaith y bydd yr asesiad allanol wedi'i gwblhau, bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghyd â'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant.

## 9. ARGYMHELLIAD

9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang am y flwyddyn ariannol 2025/2026.

Atodiad 1

# <u>CYNLLUN ARCHWILIO 2025/2026</u>

| **Adran** | **Archwiliad** | **Statws yr Archwiliad** | **Lefel Sicrwydd** | **Dyddiad Pwyllgor** |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | Addysg Tu Allan i'r Ysgol | Rhaglen a Nodyn Briffio wedi eu cytuno | | |
| | Anghenion Dysgu Ychwanegol | Wedi canslo | | |
| | Dilyniant Cludiant Ysgolion | Adroddiad Terfynol | Digonol | 21 Mai 2026 |
| | Dilyniant Clybiau Brecwast | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 21 Mai 2026 |
| | Darpariaeth Addysg Ôl-16 | Adroddiad Terfynol | Uchel | 9 Hydref 2025 |
| | Ysgolion Cyffredinol | Wedi cau | Dim Categori | |
| | | | | |
| Amgylchedd | Casglu Gwastraff Masnachol | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| | Dilyniant Trafnidiaeth Ysgolion | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 21 Mai 2026 |
| | Dilyniant Trefniadau Dosbarthu Biniau | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| | Iechyd Anifeiliaid | Adroddiad Terfynol | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| | Rheolaeth Adeiladu | Adroddiad Terfynol | Digonol | 21 Mai 2026 |
| | | | | |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Hyfforddiant Mandadol | Adroddiad Terfynol | Digonol | 21 Mai 2026 |
| | Trefniadau Tân | Adroddiad Terfynol | Digonol | 21 Mai 2026 |
| | | | | |
| Corfforaethol | Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | Wedi cau | Dim Categori | |
| | Dilyniant Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | Adroddiad Terfynol | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| | Dilyniant Cyffredinol | Wedi cau | Dim Categori | |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol | Wedi cau | Dim Categori | |

| Adran | Archwiliad | Statws yr Archwiliad | Lefel Sicrwydd | Dyddiad Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|
| | Swyddi Heb Gyllideb | Wedi canslo | | |
| | Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 21 Mai 2026 |
| | Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi Diogelu | Gwaith ar y gweill | | |
| | | | | |
| Cyllid | Archwiliadau TG | Wedi ei gynllunio | | |
| | Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2024-25 | Adroddiad Terfynol | Uchel | 9 Hydref 2025 |
| | Incwm  - Trefniadau Adennill | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| | Praeseptau | Adroddiad Terfynol | Uchel | 3 Chwefror 2026 |
| | Rheolaeth Trysorlys | Wedi ei gynllunio | | |
| | | | | |
| Economi a Chymuned | Amgueddfa Lloyd George | Adroddiad Terfynol | Uchel | 3 Chwefror 2026 |
| | Cronfa'r Degwm | Adroddiad Terfynol | Uchel | 9 Hydref 2025 |
| | Cynllun Traethau | Wedi canslo | | |
| | Hafan | Wedi canslo | | |
| | | | | |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cartref Plas Hedd | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 9 Hydref 2025 |
| | Cartref Plas Y Don | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 9 Hydref 2025 |
| | Cartref Tan Y Marian | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| | Cartref y Frondeg | Adroddiad Terfynol | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| | Dilyniant Cartrefi Preswyl | Wedi canslo | | |
| | Dilyniant Cartref Plas Pengwaith | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| | Dilyniant Cartref Llys Cadfan | Adroddiad Terfynol | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| | Dilyniant Cartref Plas Hafan | Adroddiad Terfynol | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| | DOLS/LPS | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 21 Mai 2026 |
| | Taliadau Uniongyrchol | Adroddiad Terfynol | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| | Canolfannau Dydd | Wedi canslo | | |
| | Canolfannau Anabledd Dysgu | Wedi canslo | | |

| **Adran** | **Archwiliad** | **Statws yr Archwiliad** | **Lefel Sicrwydd** | **Dyddiad Pwyllgor** |
|---|---|---|---|---|
| | Cegin Arfon | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| | Siop Galwch Acw | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| | Canolfan Y Gwystl | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| | | | | |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | Taliadau All-Sirol | Rhaglen a Nodyn Briffio wedi eu cytuno | | |
| | | | | |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | Coed yn Syrthio | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| | Cynllun Olyniaeth YGC | Adroddiad Terfynol | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| | Cynllun Parhad Gwasanaeth/Cynllun Argyfwng | Adroddiad Terfynol | Digonol | 3 Chwefror 2026 |
| | Amlosgfa Bangor | Adroddiad Terfynol | Digonol | 21 Mai 2026 |
| | Fflyd - Defnydd Tanwydd | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 21 Mai 2026 |
| | Trefniadau Clefyd Coed Ynn | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 9 Hydref 2025 |
| | Dilyniant Rheolaeth Categori - Amgylchedd | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 21 Mai 2026 |
| | Dilyniant Goramser Glanhau Stryd | Adroddiad Terfynol | Digonol | 21 Mai 2026 |
| | | | | |
| Tai ac Eiddo | Costau Llety Argyfwng | Rhaglen a Nodyn Briffio wedi eu cytuno | | |
| | Grant Atal Digartrefedd 2024-25 | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 3 Chwefror 2026 |
| | Grant Cymorth Tai | Adroddiad Terfynol | Digonol | 3 Chwefror 2026 |

**Atodiad 2**

**Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:**

| **2024/25** | | **2025/2026** |
|---|---|---|
| **1,518** | **Cyfanswm Dyddiau** | **1,513** |
| | | |
| 209 | Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Blynyddol | 202 |
| 41 | Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Statudol | 35 |
| 250 | *Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol)* | 237 |
| | | |
| **1,268** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **1,275** |
| | *Llai:* | |
| 9 | Gwyliau Arbennig | 6 |
| 66 | Salwch a Dychwelyd yn Raddol | 16 |
| 0 | Mamolaeth a Cadw Mewn Cysylltiad | 252 |
| 34 | Hyfforddiant Swydd a Phroffesiynol | 59 |
| **1,159** | **Dyddiau ar gael** | **942** |
| | | |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| | Apwyntiadau Meddygol | |
| | Cofnodi a Rheoli Amser | |
| | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | |
| | Cyflwyno Hyfforddiant | |
| | Gwaith Cefndirol | |
| | Gweinyddiaeth ayb. | |
| | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| | Rheolaeth Archwilio Mewnol | |
| | Rheoli Absenoldebau | |
| | Trafferthion TG | |
| | Cyfarfodydd/Gwaith ar y cyd ag Archwilwyr Allanol | |
| 283 | *Cyfanswm sydd ddim yn cyfrannu i'r Cynllun* | 253 |
| | | |
| **875** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **690** |
| 16 | Gwaith APCE | 34 |
| 115 | Cynghorau Tref a Chymuned | 110 |
| 35 | Byw'n Iach Cyf. | 41 |
| 3 | BUEGC | 6 |
| 25 | Secondiadau Allanol | 0 |
| 1 | GwE | 0 |
| 216 | Cronfa Ffyniant Gyffredin | 0 |
| **464** | **Cyfanswm dyddiau cynhyrchiol, Cyngor Gwynedd** | **498** |

**Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:**

| **2024/25** | | **2025/26** |
|---|---|---|
| 429 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 459 |
| 0 | Gwaith ar Gynllun 2024/25 yn ystod 2025/26 | 27 |
| 0 | Gwaith ar Gynllun 2026/27 yn ystod 2025/26 | 12 |
| 35 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 0 |
| **464** | | **498** |
| | | |